

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Gwaun Cae
Gurwen, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 27

Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen yn 97 Heol Cae Gurwen, Gwaun Cae Gurwen, Rhydaman SA18 1PB o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 27 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi.

Mae angen i'r practis sicrhau bod yr holl ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau'n drwyadl a bod unrhyw olion traul yn derbyn sylw.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tystiolaeth o reoli ac arweinyddiaeth dda gan reolwr y practis.
- Roedd archwiliadau'n cael eu cynnal a oedd yn dangos tystiolaeth bod y practis yn ceisio gwella ei wasanaethau'n barhaus.
- Yn ystod yr arolygiad, cymerodd y practis gamau gweithredu ar unwaith i ddatrys problemau cyn gynted ag y tynnwyd sylw atynt.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod gan holl staff y practis ddogfennaeth i gadarnhau bod ganddynt yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.
- Sicrhau bod yr offer brys a'r silindr ocsigen yn cael eu storio'n ddiogel ac eto'n hawdd eu cyrraedd.
- Roedd angen rhoi sylw i wifrau noeth.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Rhydaman. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un therapydd rhan amser, chwe nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mae'r practis wedi ymroddi i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Mae'r practis yn ceisio adborth gan gleifion trwy eu gwahodd i roi awgrymiadau yn y blwch a ddarperir yn y dderbynfa.

Gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais wrth gleifion.

Nododd y cleifion hynny a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi'u derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 23 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r practis yn wych ym mhob ffordd"

"Rwy'n hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir"

"Byddwn yn argymhell y practis hwn i unrhyw un"

"Mae'r holl staff yn barod iawn eu cymwynas, ac yn gyfeillgar ac rydw i bob amser yn teimlo'n dawel fy meddwl wrth fynychu'r practis".

Cadw'n iach

Gwelsom amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth a gwybodaeth benodol ynghylch triniaethau a chynngor ataliol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwydd 'dim ysmegu' yn cael ei arddangos yng nghefn y man aros, a oedd yn ategu'r bwyslais a roddwyd ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Gofal ag urddas

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis. Nododd un claf "Mae'r staff bob amser yn gwrtais iawn. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar".

Ar y llawr daear, roedd gan y practis dderbynfa a man aros agored. Dywedodd staff wrthym pe bai angen cynnal sgwrs breifat â chlaf naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn y byddai'r sgwrsiau hyn yn cael eu cynnal yn swyddfa rheolwr y practis.

Roedd holl wybodaeth electronig cleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

Ynghyd â'r dderbynfa a'r man aros, roedd dwy o bum ystafell driniaeth y practis ar y llawr daear, a oedd yn eu gwneud yn hygyrch ar gyfer cleifion a chanddynt anawsterau symudedd. Roedd gan yr holl ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau pan fo claf yn derbyn triniaeth, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth ddeintyddol i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. O'r cleifion hynny a wnaeth gwblhau holiadur, dywedodd 17 ohonynt eu bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwnaethom nodi bod taflen wybodaeth y practis yn cynnwys gwybodaeth ynghylch oriau agor y practis, manylion staff, beth i'w wneud pe bai argyfwng deintyddol a gwybodaeth arall i gleifion.

Yn ogystal â'r deunyddiau hybu iechyd deintyddol a oedd ar gael yn y man aros, roedd rhestr brisiau'n nodi costau triniaethau'r GIG a chostau deintyddol preifat. Roedd hefyd taflenni a oedd yn nodi costau triniaethau deintyddol preifat ar gael ar y llawr cyntaf ac yn yr holl ystafelloedd triniaeth. Byddem yn cynghori'r practis i arddangos gwybodaeth ynghylch holl driniaethau deintyddol y GIG ochr yn ochr â thriniaethau deintyddol preifat.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddodd 14 o gleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd pob un o'r cleifion hynny a wnaeth gwblhau holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff yn yr iaith o'u dewis.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom arsylwi ar staff yn bod yn gyfeillgar a chwrtais wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Gofal amserol

Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol. Dywedodd staff wrthym, pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr, yna y byddai'r derbynnydd yn sicrhau bod y cleifion a oedd yn aros yn cael eu hysbysu.

Gwnaethom nodi bod manylion y deintyddion yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis. Hefyd roedd neges peiriant ateb yn hysbysu cleifion ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw i gael triniaeth y tu allan i oriau. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei harddangos ym mhrif fynedfa'r practis ac yn y man aros.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth, a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Hawliau pobl

Mae'n bwysig trin pobl yn deg, fel unigolion a heb wahaniaethu, ac i ategu hyn roedd gan y practis bolisi cyfleoedd cyfartal ar waith ynghyd â pholisi ar breifatrwydd, urddas a chyfrinachedd. Roedd y brif fynedfa yn hygyrch o'r stryd, ac roedd y man aros a dwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, a oedd yn gwneud y practis yn hygyrch i gleifion a oedd ag anawsterau symudedd.

Yn arwain o'r ystafell aros roedd toiled at ddibenion y cleifion ond roedd yn rhy fach i gleifion a oedd mewn cadair olwyn ei ddefnyddio. Gwnaethom nodi hefyd fod y swits golau yn uchel iawn a oedd yn golygu nad oedd pobl fer na phlant yn gallu ei gyrraedd. Yn ogystal â hyn, roedd clo'r drws yn gymhleth (pin bach sydd angen ei dynnu allan/ei wthio i mewn) ac roedd yn bosibl na fyddai cleifion

yn sicr bod y drws wedi'i gloi. Gwnaethom gyngori'r practis i osod swits y golau yn is a newid y clo ar y drws.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaeth 15 o'r 23 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur ddweud wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion cyfun a oedd yn berthnasol i driniaeth ddeintyddol breifat yn ogystal â thriniaeth ddeintyddol y GIG. Roedd manylion y bwrdd iechyd lle gallai cleifion y GIG gyflwyno eu cwynion yn anghywir, a phan gafodd hyn ei dynnu at sylw'r rheolwr cawsant eu diwygio yn ystod yr arolygiad. Nododd rheolwr y practis hefyd ei bwriad i ddiwygio'r wefan er mwyn adlewyrchu'r polisi diwygiedig. Roedd taflenni "Gweithio i Wella"¹ a phosteri yn y dderbynfa/y man aros. Gwnaethom nodi bod gan y practis flwch awgrymiadau yn y man aros at ddibenion sylwadau cleifion.

Roedd gan y practis broses ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a phryderon a dderbynnir ganddynt. Nid oedd yr holl gwynion a gafodd eu ffeilio yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y camau gweithredu a'r canlyniad. Rydym yn argymhell bod y practis yn sicrhau bod y manylion hyn yn cael eu cynnwys ym mhob cwyn. Roedd sylwadau ac adborth ar lafar yn cael eu cofnodi yn ffeil y claf. Argymhellir bod yr adborth anffurfiol a dderbynnir oddi wrth gleifion yn cael ei gofnodi mewn llyfr nodiadau, a'i gadw yn y dderbynfa. Byddai hyn a'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn y ffolder gwynion yn galluogi'r practis i adnabod themâu a thueddiadau yn unol â chanllawiau "Gweithio i Wella".

¹ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol yng nghofnodion cleifion a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac roeddent yn daclus.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd dystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei offer brys yn cael eu storio mewn ardal ddiogel.

Gofal diogel

Mae angen i'r holl staff dderbyn hyfforddiant cyfredol ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a pherfformio dadebru cardio-pwlmonaidd, er mwyn dangos eu bod yn gallu ymdopi ag unrhyw argyfyngau meddygol pe baent yn codi. Gwnaethom nodi nad oedd gan ddau aelod o'r staff clinigol hyfforddiant cyfredol ynghylch dadebru cardio-pwlmonaidd.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.² Ni allai'r practis ddarparu cofnodion imiwneiddio ar gyfer dau aelod o'r staff clinigol. Rhaid i'r practis gael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwneidd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch hyfforddiant cardio-pwlmonaidd a chofnodion cyfredol ynghylch imiwneidd o dan ein proses sicrwydd ar unwaith.

² Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis ar unwaith wedi'r arolygiad, gan fynnu bod camau adferol brys yn cael eu cymryd. Rhoddir manylion y gwelliannau yr oedd eu hangen ar unwaith yn Atodiad A.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Yn ôl pob golwg roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd olion traul ar yr arwynebau gwaith yn ystafell driniaeth y therapydd. Hefyd, gwelsom wifrau noeth mewn un ystafell driniaeth a thystiolaeth nad oedd y sgyrtin y tu ôl i'r rheiddiadur wedi cael ei lanhau. Gwnaethom argymhell bod y gwifrau noeth yn derbyn sylw a bod yr amserlen lanhau yn cael ei haddasu i gynnwys y manau y tu ôl i'r rheiddiaduron. Efallai yr hoffai'r practis osod arwyneb gwaith newydd yn ystafell y therapydd. Yn yr ystafell ddadheintio, nid oedd deunydd lamineiddio'r llawr yn mynd yr holl ffordd i'r wal, a oedd hyn yn golygu na allai gael ei lanhau'n drwyadl. Roedd rheolwr y practis yn ymwybodol o hyn a dywedwyd wrthym y byddai darn o offer yn cael ei osod yn y fan honno.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis a gwnaethom nodi bod holl ardaloedd y practis yn lân a rhydd rhag annibendod.

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff amalgam a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel.

Roedd gan y practis lyfr "Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus" (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi'r poster iechyd a diogelwch yn swyddfa rheolwr y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r holl wifrau noeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth yn

cynnwys y manau tu ôl i'r rheiddiaduron a bod y rhain yn cael eu gwirio yn rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol a phriodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05³. Gwelsom fod gan yr ystafell sinc benodol ar gyfer golchi dwylo a blychau a oedd wedi'u labeli'n glir, gan nodi'r hyn a oedd yn lân a'r hyn a oedd yn fudr. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro, a chyfarpar diogelu llygaid, ac roeddent yn eu defnyddio.

Gwelsom y llyfrau cofnodion ar gyfer cofnodi bod offer sterileiddio yn cael eu cynnal a'u cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan y staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant rheoli heintiau'n gyfredol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Ac eithrio dau aelod o staff clinigol, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi penodi swyddog cymorth cyntaf a enwir.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).⁴ Roedd y rhain wedi'u storio ar y llawr, mewn cilfach gyferbyn â swyddfa rheolwr y practis. Er bod yr offer mewn bagiau, nid oedd y lleoliad hwn yn addas, yn enwedig am fod y silindr ocsigen yn sefyll ar ei ben ei hun ac roedd yn hawdd i gleifion gael mynediad ato. Gwnaethom argymhell bod y cyffuriau a'r offer dadebru brys yn parhau i fod yn hawdd eu cyrraedd ond eu bod yn cael eu storio'n ddiogel. Gwnaethom nodi, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU), fod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad dod i ben ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod y practis yn storio ei gyffuriau a chadw ei badiau rhagnodion yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis storio'r offer a'r bag a ddefnyddir mewn argyfwng mewn ardal sy'n ddiogel ond yn hawdd ei chyrraedd.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant wneud hyn yn y practis. Gwelsom dystysgrifau gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

⁴ Sefydlwyd y Cyngor Dadebru (DU) i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r timau deintyddol.

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth a'r offer radiolegol yn lân iawn ac mewn cyflwr da a bod ardaloedd a reolir wedi'u nodi.

Gwnaethom nodi bod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd. Diben sicrhau ansawdd yw sicrhau gwybodaeth ddiagnostig ddigonol yn gyson, gan reoli lefelau ymbelydredd i fod mor isel ag sy'n ymarferol bosib.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁵ a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİ (DM))2000⁶, roedd yr holl ddeintyddion, y therapydd ac un nyrs ddeintyddol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Byddem yn argymhell bod yr holl nyrsys deintyddol sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gynnal sganiau pelydr-X yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol mewn ymbelydredd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod unrhyw staff clinigol sy'n defnyddio'r offer pelydr-X yn mynychu hyfforddiant RhYİ (DM) priodol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymgymryd ag archwiliadau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac archwiliadau o radiograffau. Mae'r practis hefyd wedi ymgymryd ag archwiliad Cymysgedd Sgiliau a Deintyddiaeth mewn cydweithrediad â Deoniaeth Cymru.

⁵ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁶ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi rhoi offeryn datblygu ymarfer Matrics Aeddfedwydd ar gyfer Deintyddiaeth⁷ y Ddeoniaeth ar waith nifer o flynyddoedd yn ôl, a'i fod wedi trafod ei weithredu unwaith eto. Offeryn datblygu ymarfer tîm deintyddol yw'r Matrics Aeddfedwydd ar gyfer Deintyddiaeth i alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried mynd i'r afael â hyn.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis weithdrefn i ddiogelu data ar waith a pholisïau diogelwch i ddiogelu data'r cleifion. Roedd gan y practis gofnodion electronig yr oedd copi wrth gefn ohonynt yn cael ei gadw'n rheolaidd ar y disgiau caled a oedd yn cael eu storio yn y blwch tân. Nid oedd unrhyw gofnodion papur ar gael.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o ansawdd da. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd y canlynol bob amser yn cael eu cofnodi:

- Cyfiawnhad dros ddefnyddio sganiau pelydr-X a'r gwaith o'u graddio.
- Lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE)⁸
- Adalwadau

Gwnaethom nodi hefyd fod y cynlluniau triniaeth yn cael eu ffeilio mewn gwahanol adrannau o nodiadau cleifion gan ddeintyddion gwahanol. Byddwn yn cynghori'r holl ddeintyddion i ffeilio'r rhain yn yr un adran o'r nodiadau er mwyn sicrhau mynediad hawdd.

⁷ <https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry>

⁸Mae asesiadau gofalus o'r meinweoedd periodontol yn elfen hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir y archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:

- Cyfiawnhad dros ddefnyddio sganiau pelydr-X a'r gwaith o'u graddio.
- Lefelau archwiliadau peridontol sylfaenol (BPE)
- Adalwadau

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn gyfredol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref ac roedd y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr practis effeithlon. Gwelsom berthynas dda iawn rhwng staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da yn y rhan fwyaf o feysydd, ac eithrio cofnodion hyfforddiant a brechiadau. Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Cynghorir bod y staff i gyd yn llofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi'i ddarllen ac i ddangos tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd yr holl ddeintyddion yn darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn glir yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Yr eithriad oedd hyfforddiant mewn dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd hyn wedi derbyn sylw dan ein proses sicrwydd ar unwaith.

Roedd gan y practis gofnodion imiwneiddio cyfredol ar gyfer pob un ac eithrio dau aelod o staff clinigol. Ymdriniwyd â hyn hefyd dan ein proses sicrwydd ar unwaith.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff bob mis sy'n cael eu ategu gan gofnodion manwl sy'n cael eu hanfon at y staff. Byddem yn cynghori bod y staff i gyd yn llofnodi'r cofnodion i nodi eu bod wedi cael eu darllen ac y cytunwyd arnynt.

Dywedodd staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a'u bod yn hapus yn ymgymryd â'u rolau. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen ymsefydlu a oedd yn cynnwys ffurflen adborth a ffurflen cyfweiliad cyfnod prawf. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn derbyn arfarniadau blynyddol o'u perfformiad.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd polisi cwynion y practis na'r gweithdrefnau a oedd yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol y GIG yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd.	Mae'n bosibl na allai cleifion atgyfeirio pryder neu gŵyn i'r bwrdd iechyd cywir.	Yn ystod yr arolygiad, hysbyswyd rheolwr y practis ynghylch y gwall.	Cafodd y polisi ei ddiwygio cyn diwedd yr adolygiad. Gwnaeth rheolwr y practis hefyd gadarnhau y byddai hi'n trefnu i'r polisi ar wefan y practis gael ei addasu.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen

Dyddiad yr arolygiad: 27 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Canfyddiad Nid oedd y practis yn gallu darparu tystysgrifau ar gyfer dwy nyrs ddeintyddol i ddangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf ar sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd. Yr hyn y mae angen ei wella Mae angen i'r holl staff gael hyfforddiant cyfredol mewn ymdrin ag argyfyngau a pherfformio	2.6 Rheoli meddyginia ethau	Mae tystysgrifau ar gyfer y ddau ohonynt wedi cael eu hailgyflwyno gan yr adran ôl-raddedig. Mae gan y practis ddau gopi ar gael ar gyfer eu harolygu	Rhian Turner	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dadebru cardio-pwlmonaidd er mwyn dangos eu bod yn gallu ymdrin ag unrhyw argyfyngiadau meddygol pe baent yn codi.				
<p>Canfyddiad</p> <p>Ni allai'r practis gyflwyno cofnodion imiwneiddio ar gyfer un deintydd ac un nyrs ddeintyddol ac nid oeddem yn gallu cadarnhau bod y gwiriadau clirio ar waith o ran Hepatitis B, Hepatitis C a HIV.</p> <p>Yr hyn y mae angen ei wella</p> <p>Mae angen imiwneiddio'r holl staff clinigol rhag Hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau.</p>	7.1 gweithlu	Y Mae'r ddau wedi mynychu'r adran Iechyd Galwedigaethol yn Ysbyty Treforys. Mae'r practis wedi derbyn dogfennaeth ysgrifenedig i gadarnhau bod y nyrs yn addas i weithio. Rydym yn dal i aros am gadarnhad ynghylch y deintydd.	Rhian Turner	15 Rhagfyr 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Rhian Turner

Swydd:

Rheolwr y Practis

Dyddiad:

6 Rhagfyr 2017

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Gwaun Cae Gurwen

Dyddiad yr arolygiad: 27 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth anffurfiol yng nghofnodion cleifion a gwneud trefniadau eraill ar gyfer cofnodi gwybodaeth o'r fath.	6.3 Gwrando a dysgu o adborth	Mae llyfr cofnodion bellach ar gael yn y dderbynfa i gofnodi adborth anffurfiol	Rhian Turner	Cwblhawyd
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae angen i'r practis sicrhau bod sylw yn cael ei roi i'r holl wifrau noeth.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae trydanwr wedi ymweld â'r practis ac wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ar y soced.	Rhian Turner	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth yn cynnwys y manau tu ôl i'r rheiddiaduron a bod y rhain yn cael eu gwirio yn rheolaidd		Lluniwyd taflen gofnodi ac mae aelod o staff yn gyfrifol am wirio a chofnodi bob mis	Rhian Turner	Cwblhawyd
Rhaid i'r practis storio ei fag ac offer brys mewn ardal sy'n ddiogel ond yn hawdd eu cyrraedd.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Bydd yr holl offer brys yn cael eu symud i swyddfa ddiogel.	Anmarie Gregory	Cwblhawyd
Mae angen i'r practis sicrhau bod unrhyw staff clinigol sy'n defnyddio'r offer pelydr-X yn mynychu hyfforddiant RhYI(DM) priodol.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Bydd yr holl staff perthnasol yn cwblhau cwrs ar-lein trwy'r wefan i ôl-raddedigion.	Rhian Turner	1 mis (12 Chwefror 2018)
Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi: <ul style="list-style-type: none"> Cyfiawnhad dros ddefnyddio sganiau pelydr-X a'r gwaith o'u graddio. Lefelau archwiliadau peridontol sylfaenol (BPE) 	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r practis yn cydymffurfio mewn perthynas â gwella ansawdd. Rydym yn archwilio radiograffau a thriniaethau periodontol	Ewart Johnstone	Gwirio ac ailasesu Mehefin 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none">Adalwadau				

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ms J R Turner

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10/01/2018